


Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: Sector Addysg Uwch (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	8
5	Casgliadau ac Argymhellion	11
	Atodiadau	13

1 Cyflwyniad


- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau o fewn y sector Addysg Uwch sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6 2017 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd pob corff Addysg Uwch (AU), sef 10 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6. Arolygwyd sefydliadau Addysg Bellach hefyd a chrëwyd adroddiad ar wahân ar gyfer y sefydliadau hynny. Cynhaliwyd yr arolygon yn ystod Gorffennaf 2025.
- 2.2 Mae gofynion ar bob un o'r sefydliadau o fewn rheoliadau rhif 6 i gydymffurfio gyda safon 62 a safon 63 o ran eu cyfryngau cymdeithasol.
- 2.3 Mae Safon 62 yn nodi '*Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*'.
- 2.4 Mae Safon 63 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol '*Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)*'.
- 2.5 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 62.
- 2.6 Edrychwyd ar brif gyfrifon y sefydliadau ar y ddau blatfform LinkedIn ag Instagram. Roedd rhain yn blatfformau na edrychwyd arnynt yn flaenorol fel rhan o arolygon gwirio'r Comisiynydd, felly roedd yn gyfle i edrych ar arferion sefydliadau ar y platfformau hyn yn benodol.
- 2.7 Gwiriwyd 10 neges diweddar gan bob sefydliad ar eu prif gyfrifon ar gyfer y ddau blatfform hwn. Gwiriwyd cyfanswm o 190 neges rhwng y ddau blatfform. Prif nod yr arolwg oedd i edrych ymhellach ar yr isod:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.8 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 87 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 87 yn nodi –

'Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

3 Canfyddiadau




Cyfrifon Instagram

- 3.1 Gwelwyd bod naw o'r deg sefydliad addysg uwch â chyfrif ar y platfform Instagram. Roedd saith ohonynt yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, tra bod un yn gweithredu cyfrif dwyieithog. Roedd un sefydliad heb gynnwys unrhyw ddeunydd Cymraeg ar ei gyfrif.
- 3.2 O'r 90 o negeseuon a arolygwyd, roedd 60 (67%) ar gael yn Gymraeg yn llawn. Fodd bynnag, dim ond 50 neges (55.5%) oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 62. Roedd 10 neges (11%) ar gael yn Gymraeg yn rhannol, ac felly'n methu â chydymffurfio â'r safon. Yn ogystal, nodwyd bod 40 neges (44%) wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod 20 neges (22%) yn uniaith Saesneg – gyda rhai ohonynt yn ymddangos ar y cyfrif Saesneg yn unig.


Cyfrifon LinkedIn


- 3.3 Roedd gan bob un o'r sefydliadau a arolygwyd gyfrif ar y platfform LinkedIn. Roedd saith ohonynt â chyfrif dwyieithog, tra bod tri yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 3.4 Arolygwyd cyfanswm o 100 neges ar LinkedIn, a gwelwyd bod 90 ohonynt ar gael yn Gymraeg yn llawn. Fodd bynnag, dim ond 57 o'r negeseuon (57%) oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 62.
- 3.5 Roedd chwech neges (6%) ar gael yn Gymraeg yn rhannol yn unig, ac felly'n methu â chydymffurfio â gofynion safon 62.
- 3.6 Dangosodd yr arolygon fod 45 o'r negeseuon (45%) yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.



Hunaniaeth gorfforaethol (safon 87)

- 3.7 O safbwynt gofynion safon 87, sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod pob un o'r sefydliadau oedd yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar Instagram yn defnyddio enw a logo Cymraeg eu sefydliad ar eu cyfrifon. Fodd bynnag, nodwyd bod un sefydliad â chyfrif dwyieithog ar Instagram yn dangos enw Saesneg y sefydliad yn unig ar eu proffil.
- 3.8 Gwelwyd mai dim ond 22% o'r cyfrifon ar Instagram oedd yn hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg eu sefydliad. Roedd hynny'n bennaf oherwydd bod y proffil yn cynnwys gwybodaeth uniaith Saesneg, neu bod y disgrifiad yn y proffil yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o'i gymharu â'r testun cyfatebol yn Saesneg.
- 3.9 O ran LinkedIn, gwelwyd sawl sefydliad yn defnyddio enw Saesneg y sefydliad yn unig ar eu cyfrifon dwyieithog. Dim ond 20% o'r sefydliadau oedd yn defnyddio hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg neu'n darparu disgrifiad Cymraeg ar eu proffil.





Codi ymwybyddiaeth o gyfrifon Cymraeg

3.10 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn datgan:

“Os yw corff yn penderfynu gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid iddo godi ymwybyddiaeth o'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol yn unol â safonau []. Gall hyn gynnwys corff yn darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol”.

3.11 Gwelwyd bod pump allan o'r saith cyfrif Instagram sy'n gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân yn codi ymwybyddiaeth o'u cyfrif Cymraeg drwy gynnwys dolen o'r cyfrif Saesneg i'r cyfrif Cymraeg cyfatebol.

3.12 O'r tri sefydliad sy'n gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar LinkedIn, dim ond un oedd yn cynnwys dolen uniongyrchol o'r cyfrif Saesneg i'r cyfrif Cymraeg cyfatebol. Roedd dau sefydliad arall wedi cynnwys cyfeiriad at y cyfrif Cymraeg, ond heb gynnwys dolen uniongyrchol i hwyluso mynediad hawdd – rhywbeth y byddai'n rhesymol disgwyl i sefydliadau ei wneud.

Deunyddiau eraill ar y platfformau cyfryngau cymdeithasol

3.13 Gwelwyd sawl enghraifft lle'r oedd sefydliadau'n defnyddio deunyddiau ychwanegol ar eu platfformau i gyfleu gwybodaeth, gan gynnwys fideos neu luniau gyda thestun arnynt.

3.14 Yn rhai o'r achosion hyn, roedd y defnydd o'r Gymraeg yn gymysg. Er bod rhai arferion da i'w gweld, mae'r darlun cyffredinol yn awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn llai hygyrch na'r deunydd neu'r wybodaeth Saesneg a rannwyd ar y cyfrifon.

4 Tueddiadau

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Gwelwyd tueddiad ymhlith sefydliadau i ddefnyddio cyfrifon ar wahân ar Instagram ar gyfer cynnwys Cymraeg a Saesneg, tra bod mwy o sefydliadau'n dewis gweithredu un cyfrif dwyieithog ar LinkedIn.
- 4.2 Pan fo cyfrifon ar wahân yn cael eu defnyddio, gwelwyd diffyg cysondeb rhwng y cynnwys ar y ffrydiau Cymraeg a Saesneg. Mewn rhai achosion, roedd negeseuon ar gael ar y cyfrif Saesneg yn unig. Yn wir, canfuwyd bod 22% o'r negeseuon a arolygwyd wedi ymddangos yn Saesneg yn unig, gan arwain at sefyllfa lle mae dilynwyr y cyfrif Cymraeg yn colli gwybodaeth ac yn cael eu trin yn llai ffafriol.
- 4.3 Yn ogystal, mae'r data'n dangos fod cyfrifon Saesneg ar Instagram yn cynnwys llawer mwy o negeseuon na'r rhai Cymraeg – gyda 6,570 yn fwy. Er bod rhai o'r negeseuon hyn yn debygol o fod wedi'u creu cyn cyflwyno'r safonau, mae'r gwahaniaeth sylweddol yn codi cwestiynau ynghylch cydraddoldeb ieithyddol. Gweler atodiad 2 ar ddiwedd yr adroddiad sydd yn dangos cymhariaeth rhwng nifer y negeseuon ar gyfrifon Cymraeg a Saesneg sefydliadau ar adeg yr arolwg.
- 4.4 Er bod LinkedIn yn dangos canran uwch o negeseuon Cymraeg, gwelwyd achosion o driniaeth llai ffafriol i'r Gymraeg ar y ddau blatfform. Mae'r tueddiadau hyn yn peri pryder ac yn haeddu sylw pellach.
- 4.5 Gwelwyd achosion lle'r oedd sefydliadau wedi cynnwys neges yn Gymraeg, ond heb gynnwys dolenni priodol at y wybodaeth Gymraeg. Mewn rhai achosion, roedd y ddolen yn arwain at dudalen Saesneg y sefydliad, neu'n cael ei chynnwys ar y neges Saesneg yn unig.
- 4.6 Gwelwyd diffyg cysondeb yn y defnydd o hashnodau Cymraeg a Saesneg. Roedd rhai negeseuon Cymraeg yn cynnwys hashnodau Saesneg neu ddim hashnodau o gwbl, gan arwain at driniaeth llai ffafriol i'r Gymraeg. Gan fod hashnodau'n bwysig i hyrwyddo gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth, dylai sefydliadau ddefnyddio termau Cymraeg lle bo hynny'n bosib, yn enwedig ar gyfer enwau lleoedd, cyrsiau neu ddigwyddiadau. Hyd yn oed wrth ddefnyddio cynnwys trydydd parti, dylid cynnwys fersiynau Cymraeg o'r hashnodau lle maent ar gael. Mae ein Cod Ymarfer yn pwysleisio'r angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol drwy ddefnyddio hashnodau Cymraeg neu ddwyieithog mewn negeseuon Cymraeg.
- 4.7 Gwelwyd bod cyfran sylweddol o'r negeseuon dwyieithog yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol oherwydd lleoliad y testun, gyda'r Saesneg yn aml yn ymddangos uwchben y Gymraeg. O ganlyniad, roedd y cynnwys Cymraeg yn llai hygyrch, gan ei fod yn aml yn gofyn am gam ychwanegol megis clicio 'mwy' i'w weld yn llawn. Fodd bynnag, nodwyd rhai enghreifftiau cadarnhaol lle roedd sefydliadau'n postio'r ddwy iaith ar wahân ar gyfrifon dwyieithog, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal, fel yn yr enghraifft isod:

Bwriadu dod i un o'n Diwrnodau Agored yr haf hwn? Cofrestrwch heddiw i gael blas ar fywyd prifysgol ar ein campysau.


Caerdydd: 20 Mehefin
Abertawe: 29 Mehefin
Caerfyrddin: 5 Gorffennaf

<https://lnkd.in/eJKc2Gv>

Will you be at one of our Open Days this summer? Book your place today and get a taste of uni life on our campuses


Cardiff: 20 June
Swansea: 29 June
Cardmarthen: 5 July

<https://lnkd.in/e4gbwCdT>



Fideos a chlipiau sain

- 4.8 Gwelwyd enghreifftiau lle nad oedd sefydliadau'n trin y ddwy iaith yn gyfartal ar ddeunydd atodol megis fideos neu luniau. Roedd rhai fideos neu luniau ar y ffrwd Gymraeg yn cynnwys gwybodaeth yn Saesneg yn unig, heb gyfieithiad neu ddarpariaeth Gymraeg gyfatebol.
- 4.9 Mewn un achos, er bod fideo Cymraeg wedi'i ddarparu, roedd y fideo Saesneg yn fwy hygyrch oherwydd bod is deitlau Saesneg ar gael ar gyfer y siarad ar fideo cyfrwng Saesneg, tra nad oedd is deitlau Cymraeg ar gael ar gyfer y fideo Cymraeg. Mae hyn yn peri risg o ran cydymffurfiaeth â safon 37, sy'n ymwneud â deunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd.
- 4.10 Roedd rhai sefydliadau wedi llwyddo i gyfleu gwybodaeth yn gyfartal yn y ddwy iaith. Er enghraifft, gwelwyd achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg ar y fideo Cymraeg, neu yr un siaradwyr ar gyfer y fideo Cymraeg a Saesneg
- 4.11 Gwelwyd enghraifft arall o gyfleu negeseuon mewn fideo trwy destun ar bapur yn iaith y fideo fel isod, neu siaradwyr gwahanol ar gyfer fideos Cymraeg a Saesneg, gan sicrhau bod cynnwys yn gyson ac yn hygyrch yn y ddwy iaith.



Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.12 Roedd yn gadarnhaol gweld bod canran uchel o'r sefydliadau'n defnyddio enw a logo Cymraeg ar Instagram. Fodd bynnag, ar LinkedIn, gwelwyd tueddiad i ddefnyddio enw Saesneg yn unig, er bod rhai sefydliadau'n arddangos logos dwyieithog. Mae hyn yn peri risg i ddefnyddwyr sy'n chwilio am y cyfrifon gan ddefnyddio enw Cymraeg y sefydliad, gan nad yw'r wybodaeth Gymraeg bob amser yn weladwy nac yn gyflawn.
- 4.13 Yn ogystal, nodwyd sawl achos lle mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran disgrifiadau cyfrifon, 'taglines', a gwybodaeth fanwl megis math o sefydliad neu fanylion cyswllt. Dylid sicrhau bod yr un lefel o wybodaeth ar gael yn Gymraeg ag sydd yn Saesneg, gan gynnwys defnyddio gosodiadau cyfrif Cymraeg lle bo hynny'n bosib. Dylai'r Gymraeg hefyd fod yn weledol ac yn flaenllaw ar gyfrifon dwyieithog, a lle bo modd, dylid cynnwys dolen i dudalen hafan Gymraeg y sefydliad.
- 4.14 Ar gyfrifon dwyieithog, dylai sefydliadau hefyd ystyried a yw'r disgrifiad cyfrif Cymraeg yn weladwy, ac os nad yw, cymryd camau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran lleoliad y testun disgrifiadol. Gwelwyd un enghraifft gadarnhaol lle'r oedd y disgrifiad Cymraeg wedi'i gynnwys yn gyntaf ar y platfform:

Overview

Croeso i Brifysgol Aberystwyth

Nid oes unman tebyg i Aberystwyth: nid oes yr un Brifysgol arall a all gynnig y cyfuniad unigryw o draddodiad hir, lleoliad eithriadol o hardd, a champws sy'n cyfuno'r adnoddau diweddaraf, gan gynnwys Canolfan i'r Celfyddydau, ac sydd o fewn taffiad carreg i un o'r chwe llyfrgell hawlfraint ym Mhrydain. Wrth odre'r mynyddoedd ac ar lan y môr, mae Aberystwyth yn ganolfan o bwys diwylliannol a masnachol i'r fro a'r genedl.

Welcome to Aberystwyth University!

There is nowhere quite like Aberystwyth: no other University offers the unique combination of long academic tradition, outstandingly beautiful location, and a campus that brings together state-of-the-art facilities, an Arts Centre, and provides easy access to one of the six copyright libraries in Britain. Beneath the mountains and beside the sea, Aberystwyth is a centre of national and regional, as well as cultural and commercial, importance.

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Fel y nodwyd uchod, roedd lefel cydymffurfiaeth sefydliadau â'u platfformau cyfryngau cymdeithasol yn gymysg. Er bod rhai sefydliadau'n perfformio'n dda ar rai platfformau, nid yw'r perfformiad hwn yn gyson ar draws pob un. Mae hyn yn arwain at brofiad anghyson i'r rheiny sy'n dymuno defnyddio'r platfformau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, gwelwyd bod lefel cydymffurfiaeth ar Instagram a LinkedIn yn debyg, gyda dim ond ychydig dros hanner o'r negeseuon a arolygwyd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.
- 5.2 Gwelwyd bod lefelau uchel o driniaeth llai ffafriol i'r Gymraeg ar y platfformau hyn. Er bod cynnwys Cymraeg ar gael yn y mwyafrif o achosion, gwelwyd sefyllfaoedd lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol, ac mewn rhai achosion, ei hepgor yn gyfan gwbl.
- 5.3 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gwaith pellach i'w wneud i sicrhau cysondeb yn y cynnwys Cymraeg sydd ar gael i ddefnyddwyr, er mwyn gwella gwelededd a hygyrchedd y platfformau Cymraeg, a sicrhau bod y cyfrifon Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n briodol.
- 5.4 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau Addysg Uwch sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6:

Argymhelliad 1: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau gymryd camau i sicrhau nad yw cynnwys yn cael ei golli ar eu cyfrifon Cymraeg. Dylid sicrhau bod unrhyw neges a gyhoeddir ar y cyfrif Saesneg hefyd ar gael ar y cyfrif Cymraeg, gan ystyried sut orau i gyflwyno unrhyw wybodaeth atodol – megis fideos neu ddeunyddiau eraill arall – yn Gymraeg hefyd.

Argymhelliad 2: Hashnodau a dolenni

Dylai sefydliadau gymryd camau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran hashnodau a dolenni. Pan fo hashnodau'n cael eu cynnwys ar negeseuon Saesneg, dylid cynnwys hashnodau Cymraeg cyfatebol ar y negeseuon Cymraeg. Yn yr un modd, pan fo dolenni i wybodaeth atodol ar gael, dylid sicrhau bod y dolenni priodol wedi'u cynnwys ar y neges Gymraeg.

Argymhelliad 3: Fideos

Pan fo sefydliadau yn defnyddio fideos neu luniau i rannu gwybodaeth, dylid sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg. Dylid cymryd camau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y deunyddiau hynny, o ran testun, isdeitlau, a hygyrchedd.

Dylai sefydliadau adolygu eu dulliau o gyflwyno gwybodaeth ar fideos, sain a lluniau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ieithyddol. Argymhellir defnyddio cyfranwyr Cymraeg lle bo hynny'n ymarferol, yn enwedig ar fideos sy'n cynnwys trafodaethau neu gyfraniadau myfyrwyr.

Dylai fideos Cymraeg fod yr un mor hygyrch â'r rhai Saesneg. Os yw is deitlau Saesneg ar gael ar fideo Saesneg, dylid sicrhau bod is deitlau Cymraeg ar gael ar y fideo Cymraeg hefyd, er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal rhwng y ddwy iaith.

Argymhelliad 4: Cyfrifon dwyieithog

Pan fo cyfrifon dwyieithog yn cael eu defnyddio, dylai sefydliadau sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n gyfartal â'r Saesneg. Dylid osgoi sefyllfaoedd lle mae'r fersiwn Gymraeg yn llai hygyrch – er enghraifft os oes angen sgrolio neu glicio dolen ychwanegol i'w gweld. Dylid ystyried sut mae cynnwys yn ymddangos ar wahanol ddyfeisiau, megis ffonau symudol, a sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch heb gamau ychwanegol.

Gall gosod y Gymraeg uwchben neu i'r chwith i'r Saesneg helpu i osgoi triniaeth llai ffafriol. Dylai sefydliadau ystyried pa mor weledol yw'r negeseuon Cymraeg ar eu platfformau dwyieithog, a lleoliad y cynnwys Cymraeg o fewn negeseuon, er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Argymhelliad 5: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Dylai sefydliadau gymryd camau i hyrwyddo hunaniaeth Gymraeg ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dylid sicrhau bod yr un lefel o wybodaeth ar gael yn y fersiynau Cymraeg o fanylion y sefydliad – megis enw, disgrifiad, math o sefydliad, a manylion cyswllt.

Atodiadau

Atodiad 1 - Data'r arolwg

	Instagram	LinkedIn	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	9	10	19
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	7/9 (78%)	3/10 (30%)	10/19 (53%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	1/9 (11%)	7/10 (70%)	8/19 (42%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	1/9 (11%)	0/10 (0%)	1/19 (5%)
% yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol a disgrifiad o'r sefydliad ar y platfform	2 /9 (22%)	2 /10 (20%)	4/19 (21%)
Nifer y negeseuon a wiriwyd	90	100	190
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn Gymraeg	60/90 (67%)	90/100 (90%)	150/190 (79%)

Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn Gymraeg yn rhannol	10/90 (11%)	6/100 (6%)	16/190 (8%)
Nifer a % y negeseuon nad oedd ar gael yn Gymraeg	20/90 (22%)	4/100 (4%)	24/190 (13%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	50/90 (55.5%)	57/100 (57%)	106/190 (56%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	16/90 (18%)	33/100 (33%)	49/190 (26%)
Nifer a % y negeseuon nad oedd yn cydymffurfio	24/90 (27%)	10/100 (10%)	34/190 (18%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (<i>yn cynnwys yn llawn neu yn rhannol</i>)	40/90 (44%)	45/100 (45%)	85/190 (45%)
Nifer y cyfrifon oedd yn cynnwys dolen i'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg (pan fo cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân)	5/7 (71%)	1/3 (33%)	7/10 (70%)

Atodiad 2: Data negeseuon platfform Instagram

Nifer negeseuon sefydliadau sydd yn gweithredu cyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân ar Instagram:

Sefydliad	Negeseuon ar y cyfrif Cymraeg	Negeseuon ar y cyfrif Saesneg
A	803	2128
B	1770	2927
C	1313	2602
CH	545	1994
D	1310	1744
DD	588	596
E	784	1692
Cyfanswm negeseuon yr holl sefydliadau	7113	13683

Atodiad 3: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Wreccsam
- Y Brifysgol Agored